Adolygiad Ardal – Papur Gwybodaeth
Ardal 1: Ysgol Rhos Helyg, Ysgol Brynffordd ac Ysgol Licswm

Cefndir

Cafodd Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Sir y Fflint 2010 ei diweddaru a'i chymeradwyo gan y Cabinet ym mis Ionawr 2015.

Pam fod angen Moderneiddio Ysgolion?

Mae'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn ofynnol gan fod angen i ni:

- Sicrhau darpariaeth addysg o safon uchel a chynaliadwy
- Gwella safon adeiladau a chyfleusterau ysgolion
- Darparu'r nifer gywir o leoedd mewn ysgolion, o'r math cywir yn y lleoliadau cywir
- Mynd i'r afael ag adeiladau ysgolion anghynaliadwy a chynnal y seilwaith
- Cydnabod fod gwneud dim byd yn mynd i arwain at gymarebau disgyblion athrawon uwch wrth i'r cyllid ostwng
- Sicrhau y gallwn gynyddu cyllid allanol drwy Raglen Ysgolion y 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru

Y prif 'sbardunau' neu feini craidd ar gyfer moderneiddio sy'n tanategu'r uchod yw:

- Gwella addysg
- Arweinyddiaeth gadarn mewn ysgolion
- Adeiladau addas
- Lleoedd heb eu llenwi
- Adnoddau sy'n prinhau

Mae gan y portffolio ysgolion cynradd 1,967 (neu 17.15%) o leoedd heb eu llenwi (yn seiliedig ar adroddiadau data ysgolion mis Ionawr 2015), tra bo Llywodraeth Cymru'n gosod targed i ostwng y lefel hon i lai na 10%.

Cabinet

Cafodd yr argymhellion ar gyfer cyfnod cyntaf y Cynllun Gweithredu Moderneiddio Ysgolion eu cyflwyno a'u cymeradwyo gan y Cabinet ym mis Mehefin 2015.
Cytunodd y Cabinet gwblhau adolygiad ardal o'r ysgolion canlynol:
Ardal 1 – Ysgol Brynffordd, Ysgol Licswm ac Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor.

Roedd yr ysgolion yn yr ardal yn cyrraedd sawl trothwy adolygu fel rhan o Strategaeth Moderneiddio Ysgolion y Cyngor.

Opsiynau ar gyfer yr ardal

Gweler yr opsiynau dechreuol a gyflwynwyd i'w trafod â Phenaethiaid a grŵp cynrychiolwyr llywodraethwyr ym mhob ysgol isod:

- Opsiwn A: *status quo*
- Opsiwn B: ysgol ardal ar ddau safle
- Opsiwn C: ysgol ardal ar un safle
- Opsiwn D: ffederasiwn

O ganlyniad i'r trafodaethau hynny cytunwyd yn gyffredinol y dylid cael gwared ar opsiwn D ac y dylid newid opsiwn B am yr opsiwn canlynol:

- Dwy ysgol yn yr ardal. Un ysgol yn Ysgol Rhos Helyg, gan gyfuno Ysgol Brynffordd ac Ysgol Licswm ar un safle.

Pa opsiynau a ystyrir nawr?

- Opsiwn A: status quo
- Opsiwn B: dwy ysgol yn yr ardal. Un ysgol yn Ysgol Rhos Helyg, gan gyfuno Ysgol Brynffordd ac Ysgol Licswm ar un safle
- Opsiwn C: ysgol ardal ar un safle

Beth mae'r opsiynau yn ei olygu?

Opsiwn A: status quo

- Mae pob ysgol yn aros fel ag y mae, gan gadw ei henw, categori, cyllideb, llywodraethwyr, staff ac yn aros yn ei chymuned

Opsiwn B: dwy ysgol yn yr ardal.

- Byddai Ysgol Rhos Helyg yn aros fel ag y mae, yn cadw ei henw, categori, cyllideb, llywodraethwyr, staff a byddai'n aros yn ei chymuned.
- Byddai Ysgol Brynffordd ac Ysgol Licswm yn cyfuno ar un safle. Byddai'r ysgol newydd yn cadw ei chategori ond yn cael enw, corff llywodraethu, pennaeth a chyllideb newydd a byddai'n aros yn un o'r cymunedau.

Opsiwn C: ysgol ardal (un safle)

- Ysgol ardal – un safle, byddai'r ysgol yn cadw ei chategori ond yn cael enw, corff llywodraethu, pennaeth a chyllideb newydd a byddai'n aros yn un o'r cymunedau.

Cod Trefniadaeth Ysgolion.

- Nid yw'r adolygiad ardal yn ffurfio rhan o'r broses ffurfiol ar hyn o bryd fel y nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion.

- Fodd bynnag, os bydd y Cabinet yn cytuno i opsiwn 2 neu 3, bydd gofyn i'r Cyngor ymgymryd â'r broses a amlinellir yng **Nghod Trefniadaeth Ysgolion** Llywodraeth Cymru. Byddai hon yn ffurfio proses ar wahân ar ôl i'r Cabinet ei chymeradwyo (Gwanwyn 2016). Rhaid i unrhyw gynigion trefniadaeth ysgolion yng Nghymru gael eu gwneud yn unol â ***Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013***. Dolen i'r cod:

http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/130719-school-organisation-codes-en.pdf

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Mae'r amserlen yn ddilyniannol ac fel arfer fel a ganlyn:

- Adolygiad ardal – (oddeutu) 6 mis (gwaith arfarnu opsiynau)
- Cymeradwyaeth gan y Cabinet
- Cynigion statudol – 9-12 mis (os yw Cabinet y Cyngor yn cytuno)
- Cymeradwyaeth y Cabinet
- Caffael Adeiladwyr / Gwaith Adeiladu (lle bo hynny'n berthnasol)

Nawr bydd swyddogion y Cyngor yn cynnal arfarniadau opsiynau'n seiliedig ar 3 model a nodwyd yn gynharach yn y ddogfen. Cynhelir arfarniadau gan ddefnyddio canllawiau arfarnu opsiynau Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Er mwyn cynorthwyo'r broses arfarnu, cynhelir Asesiadau Effaith hefyd ar adeiladau, cydraddoldeb, iaith, cludiant a'r gymuned.

Ar ôl i'r wybodaeth gael ei choladu, bydd y Cyngor yn ceisio barn budd-ddeiliaid allweddol ac yn cyflwyno ei ganfyddiadau i staff, llywodraethwyr, rhieni a gofalwyr trwy drefnu digwyddiadau ymgynghori; bydd hynny'n digwydd ar ddechrau gwanwyn 2016. (Dyddiadau i'w cadarnhau).

Tua'r un amser, bydd digwyddiadau ymgynghori arbennig yn cael eu cynnal i gael barn y bobl ifanc o'r 3 ysgol.

Caiff barn y prif fudd-ddeiliaid ynghyd â'r wybodaeth arfarnu opsiynau'n eu cyflwyno i'r Cabinet yng ngwanwyn 2016. Bydd y Cabinet yn ystyried yr holl wybodaeth ac yn penderfynu pa opsiwn yw'r gorau ar gyfer yr ardal.

Bydd yr amserlen ar gyfer y newid posibl yn nhrefniadaeth yr ysgolion yn dibynnu ar yr opsiwn a ddewisir gan y Cabinet. Bydd gwybodaeth bellach ar gael ar amser priodol.

Manylion cyswllt:

Os oes gennych unrhyw sylwadau, ymholiadau neu syniadau, gwelir y manylion cyswllt isod:

Tîm Moderneiddio Ysgolion
Addysg ac Ieuenctid
Neuadd y Sir
Yr Wyddgrug
Sir Ddinbych
CH7 6ND
Rhif ffôn: 01352 704015/4134
e-bost: 21stcenturyschools@flintshire.gov.uk